

Dewis Kiddo

Gweithgareddau Dilydol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilydol ar gyfer Cylchoedd a Chroesau yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilydol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

Gweithgareddau Dilydol Dewis Kiddo	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd	Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru	
		Sgiliau	Ystod
1. Gweithgaredd dilydol	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith. 	
2. Canfyddiadau o ddefnydd a chamddefnydd alcohol	LI(LI)s LI(LI)g LI(D)sd LI(Y)ydd Rh(DSRh) dffrhbrhrh Rh(DSM)cchd Rh(DSM)t	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd. Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill Sut i ddefnyddio alcohol yn gyfrifol a pheryglon yfed sbri
3. Senarios	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(Y)ydd	<ul style="list-style-type: none"> cydymdeimlo gyda phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill 	<ul style="list-style-type: none"> Deall eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc yng Nghymru
4. Gwneud dewisiadau gan wrthsefyll pwysau gan gyfoedion	LI(LI)s LI(LI)g LI(LI)c&th LI(LI)d&d LI(Y)ydd	<ul style="list-style-type: none"> Bod yn bendant a gwrthsefyll pwysau nas ddymunir gan gyfoedion 	<ul style="list-style-type: none"> Deall yr hyn y maent hwy'n credu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r dilemas moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd



1. Gweithgaredd dilynol Arddangoswch y ddau gartŵn a ddarparwyd (adnodd 1a ac 1b). Gofynnwch i'r disgyblion ddehongli a thrafod ystyr y cartwnau ac unrhyw faterion a godir. Nod yr ysgogiad yw sbarduno trafodaeth am effaith alcohol.

2. Canfyddiadau o ddefnydd a chamddefnydd alcohol

a) Rhannwch y dosbarth yn barau a dosbarthwch gopïau o Arolwg Canfyddiadau Alcohol (adnodd 2a). Gofynnwch i bob pâr drafod a llenwi'r arolwg.

Dychwelwch at waith dosbarth cyfan.

Defnyddiwch y PowerPoint (adnodd 2b) sy'n cynnwys nifer o ffeithiau a ffigurau'n ymwneud â defnydd a chamddefnydd alcohol. Cymharu ymatebion arolwg disgyblion gyda'r wybodaeth a roddir ar y sleidiau. Yn ystod y drafodaeth cysylltwch gynnwys bob sleid i'r ardal leol.

b) Cwblhewch y dasg a roddir ar sleid derfynol.

Fel dosbarth trafodwch y cysyniad nad ydym bob amser yn meddwl am y canlyniadau gaiff yfed sbri ar eraill yn y gymuned ehangach. Pa effeithiau all yfed sbri ei gael ar bobl eraill? Pwy sy'n clirio'r llanast? O dan Datrysiaid Gwarediadau Ieuencid gellid gofyn i'r rhai sy'n gyfrifol am y llanast ei lanhau. Mae'r poster ar y sleid yn rhan o ymgyrch poster newydd gan y llywodraeth a arweinir gan y cyngorau ac mae wedi ei gynnwys er mwyn ysgogi trafodaeth h.y. a yw'n deg bod yn rhaid i bobl eraill glirio'r llanast meddw a'r taflu i fyny? Pwy sy'n clirio'r poteli cwrw gwag? A yw'r cyngor yn bod yn amhroffesiynol drwy gyhoeddi posteri o'r fath? A gânt yr effaith a ddymunir ar yfwyr dan oed?

Tasg y disgyblion yw cynllunio poster gan o bosibl defnyddio TGCh sy'n adlewyrchu sut gallai eu hymddygiad o dan ddylanwad alcohol effeithio ar y bobl yn eu cymuned leol a'r canlyniadau a allai ddeillio o hynny.

Neu fel arall:

c) Gallai'r disgyblion ddylunio taflen i'w rhoi i'w cyfoedion a fydd yn eu hysbysu o ganlyniadau yfed gormod o alcohol. Dylai'r taflenni gynnwys ffeithiau a ffigurau, lluniau a llinellau cymorth. Gallai disgyblion ddefnyddio'r rhyngwyd i'w helpu i gasglu'r wybodaeth. Dylid atgoffa'r disgyblion bod angen i'w taflen fod yn atyniadol fel bod disgyblion yn talu sylw i'r neges a gyflwynir.

Noder: Gellir hefyd ofyn i ddisgyblion greu PowerPoint y gellid ei ddangos mewn gwasanaeth i gyd-fynd â'u taflen.



3. Senarios

a) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gofynnwch i bob grŵp ddewis llefarydd. Dangoswch sleid PowerPoint 'Kiddo's - Gosod y Cefndir' (adnodd 3a), i ysgogi trafodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gofynnwch y cwestiynau isod i'r dosbarth a nodwch ar y bwrdd ganlyniadau'r ymddygiad a ddangosir ar y sleid.

b) Dosbarthwch o leiaf un o'r cardiau senario (adnodd 3b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cwestiynau canlynol:

1. Ar bwy mae hyn yn effeithio?
2. Sut cânt eu heffeithio?
3. Beth ddylech chi ei wneud?
4. Beth allai canlyniadau'r gweithredoedd hyn fod?
5. Beth yw canlyniadau posibl gwneud dim?

Gofynnwch i'r llefarydd adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan ar ganfyddiadau eu grŵp .

4. Gwneud Dewisiadau - gwrthsefyll pwysau gan gyfoedion

Cyflwynwch y datganiad canlynol i'r dosbarth:

"Ddylwn i ddim bod yn sefyll yma yn y lle cyntaf!"

Mae Jay yn dweud hyn pan fydd yn sefyll gerbron y llys. Pam ei fod yn meddwl na ddylai fod yn y sefyllfa honno? Gofynnwch i'r Dosbarth ystyried sut y gallai fod wedi osgoi bod yn y llys. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhowch gopi o'r ddalen ysgogi A3 a elwir yn Gwneud Dewisiadau (adnodd 4a) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion drafod pob llun ac ateb y cwestiynau allweddol a osodir:

- A allai Jay fod wedi gwneud dewis gwahanol?
- Os felly, beth allai Jay fod wedi ei wneud?

Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl ar eu hatebion. Enwebwch un senario i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp ddatblygu strategaeth i gynorthwyo Jay i wrthsefyll pwysau gan gyfoedion. (adnodd 4b) Gallai'r adborth fod ar ffurf drama fechan i'w cyflwyno i'r dosbarth.

